



Cynllun Moderneiddio Ysgolion Cynradd Conwy

Ardal Penmaenrhos

Asesiad Effaith Iaith

Mehefin 2012

Cynnwys

	Tudalen
1 Cyflwyniad	2
1.1 Cynllun Iaith Gymraeg Conwy	2
2 Proffil Iaith Gymraeg	3
2.1 Proffil Ardal Conwy	3
2.2 Proffil Ardal Penmaenrhos	4
2.3 Proffiliau Ysgol	5
3 Dewisiadau Awdurdod Lleol ar gyfer Newid Strwythurol Aseiad Effaith Cludiant	7
4 Casgliadau ac Argymhellion	9
Atodiad 1 - Dull Aseiad Effaith Iaith	10
Atodiad 2 – Mintai Iaith	12

1. Cyflwyniad

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi bod yn cynnal adolygiad manwl o'i ysgolion cynradd yn ystod y tair blynedd ddiwethaf. Canlyniad hyn oedd cyhoeddi *'Strategaeth Moderneiddio Ysgolion Cynradd Conwy'* a'r *'Cynllun Gweithredu'* cysylltiedig yn Hydref 2010, ar ôl i'r Cabinet ei fabwysiadu.

Cytunodd y Cabinet hefyd i:

- i) Ymgynghori ag ardaloedd yn fanwl (asesiad effaith llawn) ar y dewisiadau yn y Cynllun Gweithredu, a
- ii) Chynnal cyfarfodydd rhanddeiliaid gyda'r ardaloedd hynny a nodwyd ar gyfer *'adolygiad mewn dwy flynedd'*.

Bydd gwybodaeth allweddol, gan gynnwys asesiadau effaith ar iaith, cydraddoldeb, cludiant, ar yr ardal ac adeiladau addas i'r pwrpas yn cael eu gwneud er mwyn cyfeirio gwerthusiad dewis.

Bydd cyfarfodydd ymgynghori ffurfiol yn cael eu cynnal gyda phob ysgol o fewn ardal adolygiad dechreuol er mwyn cyflwyno'n fanylach y dewisiadau a ystyriwyd ar gyfer pob ardal a chanlyniad y gwerthusiad dewis.

Bydd y ddogfen hon yn ystyried effaith y dewisiadau arfaethedig ar y Gymraeg yn Ardal Penmaenrhos.

1.1 Cynllun Iaith Gymraeg Conwy

Prif nodau ac amcanion y Cynllun Iaith Gymraeg yw:

- Sicrhau fod addysg cyfrwng Gymraeg neu ddwyieithog ar gael i bob plentyn y mae eu rhieni/gwarcheidwaid yn dymuno iddynt gael addysg trwy gyfrwng y Gymraeg neu ddwyieithog, o fewn pellter teithio rhesymol o gartref y plant. Golyga hyn blant o oed cyn ysgol a hŷn.
- Sicrhau continwwm sy'n datblygu o addysg gynradd cyfrwng Cymraeg/dwyieithog at addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg/dwyieithog. Bydd disgyblion sydd wedi cael eu haddysg gynradd trwy gyfrwng y Gymraeg yn gallu mynychu ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg/dwyieithog, i hyrwyddo continwwm ieithyddol o CA4 ymlaen trwodd at eu gyrfa dysgu gydol oes i ddisgyblion a myfyrwyr yn y sir.
- Darparu cyfleoedd pellach i ddisgyblion gael addysg cyfrwng Cymraeg.
- Sicrhau fod y Gymraeg yn cael ei haddysgu fel iaith gyntaf a/neu ail iaith ar amserlen pob ysgol yng Nghonwy, yn unol â gofynion statudol y Cwricwlwm Cenedlaethol ar gyfer pob cyfnod allweddol.
- Sicrhau fod plant a phobl ifanc ag anghenion addysgol arbennig yn cael cyfle ieithyddol cyfartal o ran addysg cyfrwng Cymraeg yn ystod y broses ddatganiadau gyfan, yn unol â Chod Ymarfer AAA Cymru.
- Sicrhau fod pob disgybl sy'n mynychu ysgol cyfrwng Cymraeg penodedig/dwyieithog yn gallu siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg yn rhugl erbyn diwedd CA2.
- Gweithio mewn partneriaeth â phob ysgol er mwyn gwella safon Cymraeg fel iaith gyntaf ac ail iaith. Bydd pob ysgol yn y sir yn cael cyngor a chefnogaeth gan ymgynghorwyr ar y Gymraeg a gan wasanaethau cefnogi ysgolion. Darperir mwy o gefnogaeth gan yr Athrawon Bro a fydd yn ymweld ag yn monitro safonau iaith ysgolion ar ran yr AALI.


- Cynnal a hyrwyddo'r '*Rhaglen Hyfforddiant Mewn Swydd*' sy'n bodoli sy'n cefnogi datblygiad y Gymraeg fel iaith gyntaf ac fel ail iaith.
- Darparu cyfleoedd i ddisgyblion wella eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o ethos/nodweddion diwylliannol, economaidd, amgylcheddol, hanesyddol ac ieithyddol Cymru trwy'r Cwricwlwm Cymreig.
- Sicrhau fod disgyblion newydd i'r sir sy'n ymfudwyr Di-Gymraeg yn gallu gwneud defnydd llawn o'r Canolfannau Iaith Gymraeg er mwyn iddynt, ar ôl dilyn cwrs Cymraeg dwys, fedru integreiddio'n llawn i'w hysgol a'u cymdeithas.
- Hyrwyddo datblygiad yr AALI o sgiliau Cymraeg disgyblion trwy weithgareddau a phrosiectau penodol sy'n caniatáu ar gyfer trosiant iaith effeithiol o CA2 i CA3.
- Parhau i gynnig hyfforddiant penodol i alluogi athrawon Cymraeg ail iaith i wella eu sgiliau cyflwyno iaith.

2. Proffil iaith Gymraeg

2.1 Proffil Ardal Conwy¹

- 29% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg
- Dim ond 54% o breswylwyr a anwyd yng Nghymru
- Mae'r ddwy gyfran yn cynyddu wrth i chi symud i'r gorllewin ac i'r de

Map 1: cyfran o siaradwyr Cymraeg yng Nghonwy, yn ôl ward



Source: 2001 Census (table KS025)


¹ CBSC – Proffil Ardal i Gonwy (Hyd 2010)

Dim ond ychydig yn fwy na hanner poblogaeth y Fwrdeistref Sirol sydd wedi eu geni yng Nghymru (54%). Yn rhannol mae hyn yn rhoi cyfrif am y gyfran gweddol isel o'r boblogaeth sy'n gallu siarad Cymraeg o gymharu â'r ardaloedd i'r gorllewin. Fodd bynnag, mae 29% o'r boblogaeth dros dair blwydd oed yn siaradwyr Cymraeg - yn sylweddol uwch na'r ffigwr Cymru gyfan o 20.5%. Mae'r gallu i siarad Cymraeg yn fwyaf cyffredin ymysg y rhai o oedran ysgol (gall 49.5% o rai 5-15 oed siarad Cymraeg).

Yn gyffredinol, mae nifer y siaradwyr Cymraeg a'r rhai a anwyd yng Nghymru yn cynyddu tuag at y gorllewin, ac wrth deithio yn fewndirol o'r ardaloedd arfordirol mwy poblog. Mae'r gallu i siarad Cymraeg ar ei uchaf yn ward ddeheuol wledig Uwchaled (74% yn siarad Cymraeg), ac ar ei hisaf yn ardal arfordirol ddwyreiniol Tywyn a Bae Cinmel (llai na 11%).

2.2 Proffil Ardal Penmaenrhos

Map 2: Wardiau Colwyn a Llysfaen gydag Ysgolion Penmaenrhos a Than y Marian



© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2012 Arolwg Ordnans 100023380
Mae telerau ac amodau'n gysylltiedig â defnyddio'r data hwn

2.3 Proffiliau Ysgol

2.4

Ysgol Babanod Penmaenrhos

Mae Ysgol Babanod Penmaenrhos yn ysgol babanod sirol i blant 3 - 7 oed. Fe'i sefydlwyd yn 1918 a'i lleoli ar Craig Road, Penmaenrhos, Bae Colwyn gan wasanaethu ardal Peulwys o Hen Golwyn yn bennaf.


Yn Ionawr 2012, roedd 65 o ddisgyblion (gan gynnwys meithrin) yn yr ysgol, yn cael eu haddysgu trwy gyfrwng y Saesneg gyda'r Gymraeg fel ail iaith.

Canfu arolwg diweddaraf ESTYN ar Ysgol Babanod Penmaenrhos fod "Sgiliau iaith Gymraeg y mwyafrif o ddisgyblion yn dda. Mae llawer o ddisgyblion hŷn yn darllen gyda mynegiant, yn gallu cynnal sgwrs syml yn Gymraeg ac yn gallu ateb cwestiynau yn seiliedig

ar waith blaenorol. Mae agwedd disgyblion tuag at Gymru a dysgu'r Gymraeg yn gadarnhaol iawn.

Mae darpariaeth ar gyfer datblygiad yr iaith Gymraeg yn dda. Mae'r athro peripatetig Cymraeg yn cefnogi'r ysgol yn briodol er mwyn hyfforddi staff. Mae'r ysgol yn darparu disgyblion ag amrywiaeth o gyfleoedd diddorol i ddysgu am hanes, daearyddiaeth, celf a cherddoriaeth Cymru."

Map 3. Dalgylch Ysgol Penmaenrhos ac Ysgol Tan y Marian



© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2012 Arolwg Ordnans 100023380
Mae telerau ac amodau'n gysylltiedig â defnyddio'r data hwn

Ysgol Tan y Marian

Adeiladwyd Ysgol Tan y Marian yn 1984 fel ysgol iau sirol i blant 7 - 11. Yn Ionawr 2012, roedd 56 o ddisgyblion yr ysgol sydd i gyd yn siarad Saesneg fel eu hiaith gyntaf.

Canfu adroddiad diweddaraf ESTYN ar Ysgol Tan y Marian ² bod "llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da mewn dysgu Cymraeg. Mae'r mwyafrif yn dangos agwedd gadarnhaol a brwdfrydig tuag at y pwnc. Mae llawer o ddisgyblion yn gofyn ac ateb cwestiynau, yn dilyn cyfarwyddyd gyda hyder cynyddol ac yn defnyddio'r Gymraeg o amgylch yr ysgol. Mae gan ddisgyblion ymwybyddiaeth gynyddol o ddiwylliant ac etifeddiaeth Cymru.

Mae darpariaeth ar gyfer yr iaith Gymraeg wedi'i gynllunio'n dda ac yn galluogi disgyblion wneud cynnydd da. Anogir disgyblion i ddefnyddio'r Gymraeg ymhob agwedd o fywyd yr ysgol ac yn cael eu gwobrwyo am eu hymdrechion. Mae mewnbwn yr awdurdod lleol yn cefnogi athrawon ac yn cael effaith arwyddocaol ar ddarpariaeth a safonau. Mae'r Cwricwlwm Cymreig wedi'i gynllunio'n fedrus i sawl profiad dysgu ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar y safonau mae disgyblion yn eu cyflawni."

² Adroddiad Arolwg ESTYN Ysgol Tan y Marian Tachwedd 2011

	Ysgol Penmaenrhos	Ysgol Tan y Marian
Nifer Disgyblion (Ionawr 2012)	65 (yn cynnwys 19 meithrin)	56
Categori iaith yr ysgol	5	5
Defnydd disgyblion o'r Gymraeg		
Canran disgyblion sy'n siarad Cymraeg gartref: <i>Siarad Cymraeg gartref</i>	9%	13%
<i>Nid yn siarad Cymraeg gartref</i>	8%	14%
<i>Amherthnasol (methu siarad Cymraeg)</i>	83%	73%
Canran a <u>addysgir</u> trwy gyfrwng y Gymraeg	0%	0%
Canran disgyblion sy'n <u>cael</u> asesiad athro yn Gymraeg ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 1	0%	amh
<i>Cyfnod Allweddol 2</i>	amh	0%
O'r rhai a gafodd asesiad athro yn y Gymraeg, y ganran o ddisgyblion a <u>gyflawnodd</u> yng		
<i>Nghyfnod Allweddol 1</i>	0%	amh
<i>Nghyfnod Allweddol 2</i>	amh	0%
Cyfrwng iaith disgyblion ar y buarth		
<i>Clwb Brechwast</i> <i>Clwb ar ôl ysgol</i>	Clwb Chwarae a Brechwast. Saesneg gyda Chymraeg achlysurol Clwb Saesneg A-S	Clwb Chwarae a Brechwast. Saesneg gyda Chymraeg achlysurol amh
Ysgol yn cymryd rhan flynyddol yn:		
<i>Cylch Meithrin / Ti a Fi</i>	Y	amh
<i>Eisteddfodau</i>	N	Y
<i>Adrannau'r Urdd</i>	N	Y
<i>Ymweliadau dysgu Cymraeg (e.e. Glan Llyn)</i>	amh	Y
<i>Gweithgareddau cyfrwng y Gymraeg eraill</i>	Y	Y
Defnyddir yr ysgol gan yr ardal i ddysgu Cymraeg	Y	N
Defnydd staff / llywodraethwyr o'r Gymraeg		
Canran yr athrawon sy'n gallu addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg	50%	80%
Canran y staff cefnogi all siarad Cymraeg yn:		
<i>rhugl</i>	33%	0%
<i>Siarad Cymraeg ond nid yn rhugl</i>	67%	100%
<i>Nid yn gallu siarad Cymraeg</i>	0%	0%
Canran y llywodraethwyr sy'n gallu siarad Cymraeg yn:		
<i>rhugl</i>	11%	25%
<i>Siarad Cymraeg ond nid yn rhugl</i>	22%	13%
<i>Nid yn gallu siarad Cymraeg</i>	67%	62%
Yr iaith a ddefnyddir yn gyffredin mewn:		
Cyfarfodydd llywodraethwyr	Saesneg	Saesneg
Cyfarfodydd CRhA	Saesneg	Saesneg
Cyfarfodydd staff	Y ddau	Y ddau
Defnydd o'r Gymraeg yn yr ardal (cyfrifiad 2001)		
(unigolion 3+ oed) Canran Ward Colwyn sy'n:		22.6%
<i>Siarad Cymraeg</i>		
<i>Un neu fwy o sgiliau yn y Gymraeg</i>		34.5%
(unigolion 3+ oed) canran Llysfaen		23.5%
<i>Siarad Cymraeg</i>		
<i>Un neu fwy o sgiliau yn y Gymraeg</i>		34.9%

3. Dewisiadau Awdurdod Lleol ar gyfer newid Strwythurol Asesiad Effaith Iaith Gymraeg

Ardal	Ysgolion	Band Ymgynghori	Cael ei arwain gan y gyrrwyr Dewis (1)	Dewis a ddymunir gan yr ardal (2)	Dewis (3)
Ardal Penmaenrhos	Penmaenrhos Tan y Marian	A	Ysgol ardal ar un safle, Ysgol Tan y Marian.	Cynnal yr ysgolion presennol	Ysgol ardal ar 2 safle sy'n bodoli

	Dewis 1	Dewis 2	Dewis 3	Sylwadau / Lliniaru effaith negyddol yn y dyfodol
Defnydd disgyblion o'r Gymraeg				
Defnydd disgyblion o'r Gymraeg gartref	Niwtral	Niwtral	Niwtral	Mae'r ddwy ysgol mewn ardal ble siaredir Saesneg yn bennaf a bydd y Saesneg yn parhau'n brif gyfrwng addysgu a chyfathrebu yn yr ysgol a rhwng yr ysgol a'r cartref.
Disgyblion <u>addysgir</u> trwy gyfrwng y Gymraeg	Niwtral	Niwtral	Niwtral	Amherthnasol yn y cyd-destun hwn. Addysgir y Gymraeg fel ail iaith.
Disgyblion sy'n <u>cael</u> asesiad athro mewn Cymraeg ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 1 a 2	Niwtral	Niwtral	Niwtral	Amherthnasol yn y cyd-destun hwn. Addysgir y Gymraeg fel ail iaith.
Canran disgyblion a <u>gyflawnodd</u> asesiad athro mewn Cymraeg yng Nghyfnod Allweddol 1 a 2	Niwtral	Niwtral	Niwtral	Amherthnasol yn y cyd-destun hwn. Addysgir y Gymraeg fel ail iaith.
Cyfrwng iaith disgyblion ar y <i>Buarth</i>	Niwtral (potensial i ddatblygiad tymor canolig Cymraeg fel ail iaith)	Niwtral	Niwtral (potensial i ddatblygiad tymor canolig Cymraeg fel ail iaith)	Mewn ymgynghoriad â disgyblion a rhieni, o dan ddewis 1 a 3 bydd y cyd lywodraethwyr yn llunio polisi ysgol yn seiliedig ar annog defnydd cymdeithasol disgyblion o'r Gymraeg fel ail iaith y tu allan i'r dosbarth. <ul style="list-style-type: none"> Darparu marciau buarth ac offer i alluogi gemau sy'n datblygu gallu disgyblion o'r iaith Cefnogi staff goruchwylio, ble'n berthnasol, i ddatblygu eu sgiliau iaith eu hunain.
<i>Clwb Brecwast</i>	Niwtral	Niwtral	Niwtral	Bydd ymarfer staff a gweithgareddau disgyblion yn edrych ar gyfleoedd i
<i>Clwb ar ôl ysgol</i>	Niwtral	Niwtral	Niwtral	

	Dewis 1	Dewis 2	Dewis 3	Sylwadau / Lliniaru effaith negyddol yn y dyfodol
				gefnogi polisi'r ysgol o hyrwyddo'r Gymraeg fel ail iaith y tu allan i'r dosbarth.
Ymwneud yr ysgol mewn gweithgareddau cyfrwng y Gymraeg	Niwtral	Niwtral	Niwtral	O dan ddewis 1 a 3 byddai'r cyd-lywodraethwyr yn cefnogi ymwneud wedi'i gefnogi mewn gweithgareddau i ysgolion sy'n datblygu'r defnydd o'r Gymraeg fel ail iaith, e.e. llyfrau Cymraeg, cwis, ffilm a chystadlaethau animeiddio.
Defnydd Staff / llywodraethwyr o'r Gymraeg				
Gallu athrawon i addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg	Niwtral	Niwtral	Niwtral	Mae'r ddwy ysgol mewn ardal ble siaredir Saesneg yn bennaf a bydd y Saesneg yn parhau'n brif gyfrwng addysgu. Bydd yr holl athrawon yn parhau i addysgu Cymraeg fel ail iaith.
Gallu staff cynorthwyol i gynorthwyo trwy gyfrwng y Gymraeg	Niwtral	Niwtral	Niwtral	Bydd staff cefnogi yn parhau i gefnogi addysgu Cymraeg fel ail iaith.
Yr iaith a ddefnyddir amlaf yn ystod cyfarfodydd llywodraethwyr, CRhA a staff	Niwtral	Niwtral	Niwtral	Bydd pob cyfathrebu'n aros yn bennaf trwy gyfrwng y Saesneg – gwefan, cofnodion y llywodraethwyr, cylchythrau etc. Er mwyn datblygu'r ethos Gymraeg, dylai cyfathrebu edrych ar ddatblygu presenoldeb y Gymraeg wrth gyfarch, arwyddion etc.
Ethos Gymraeg				
Cynnal ethos Gymraeg ysgolion a rhoi pwysigrwydd ar y Cwricwlwm Cymreig	Niwtral (cadarnhaol yn y cyfnod canolig)	Niwtral	Niwtral (cadarnhaol yn y cyfnod canolig)	Adroddiadau Estyn yn gadarnhaol ar hyrwyddo'r Cwricwlwm Cymreig yn y ddwy ysgol. Byddai cyfuno yn arwain at rannu ymarfer da. Byddant yn parhau i gynllunio'r cwricwlwm tuag at werthfawrogi cyfraniad artistiaid Cymreig, daearyddiaeth ffisegol a hanes Cymru a rhan y Cymry mewn gwleidyddiaeth, y cyfryngau, y celfyddydau, chwaraeon, materion iath, a bywyd dinesig yn gyffredinol.
Effaith gyfunol ar y Gymraeg	Niwtral	Niwtral	Niwtral	

4. Casgliadau ac Argymhellion

4.1 Casgliadau

Canlyniadau Asesiad Effaith iaith Gymraeg (adran 3) yw:

- | | |
|--|---------|
| ▪ Dewis 1- ysgol ardal ar un safle | Niwtral |
| ▪ Dewis 2 – cynnal yr ysgolion presennol | Niwtral |
| ▪ Dewis 3 – ysgol ardal ar y 2 safle sy'n bodoli | Niwtral |

Felly, argymhelliad yr adroddiad hwn yw bod ysgol ardal, un ai ar un safle (Dewis 1) neu ar y ddwy ysgol sy'n bodoli yn cael ei ystyried fel y ffordd gorau ymlaen i warchod a hyrwyddo'r iaith Gymraeg. Mae'r manteision fodd bynnag, yn ymylol ac yn seiliedig ar fanteision yn codi o gyd gorff llywodraethol gyda chynllun a dull cyffredin.

4.2 Argymhellion i Gefnogi Newid

- A1 Mewn ymgynghoriad â disgyblion a rhieni, o dan ddewis 1 a 3 byddai'r cyd lywodraethwyr yn llunio polisi ynghylch datblygu eu hymarfer da mewn addysgu Cymraeg fel ail iaith. Dylai'r polisi ystyried ffyrdd o gefnogi defnydd cymdeithasol disgyblion o'r Gymraeg fel ail iaith y tu allan i'r dosbarth.
- A2 Cedwid llygad ar y polisi gan y cyd lywodraethwyr a'i effaith yn cael ei adolygu'n rheolaidd.
- A3 Mae tracio effeithiol o sgiliau disgyblion eisoes yn bodoli yn y ddwy ysgol. Bydd cyfuno'n ceisio datblygu'r ymarfer gorau sy'n bodoli a chanolbwyntio'n rhannol ar gadw llygad ar allu disgyblion i ennill y Gymraeg fel ail iaith.
- A4 O dan ddewis 1 a 3 bydd y cyd gorff llywodraethol yn llunio polisi ynghylch datblygu ymarfer da sy'n bodoli wrth hyrwyddo'r "Cwricwlwm Cymreig". Mae hyn yn cynnwys y dimensiwn Cymreig mewn cynllunio cwricwlwm fel bod gan ddisgyblion ymwybyddiaeth gynyddol o ddiwylliant ac etifeddiaeth Cymru.

Dull Asesiad Effaith Iaith

I fesur yr effaith mae pob dewis yn ei gael ar y fantais bod 'Yr ysgol yn cyfarfod anghenion iaith y disgyblion'.

Amlinelliad ar gyfer pob asesiad:

Bydd angen ystyried y canlynol ar gyfer bob dewis o fewn ardal e.e. os oes gan ardal bedwar dewis, yna byddai angen sgôr ar gyfer y pedwar dewis yn yr ardal:

Ardal	Ysgolion	Band Ymgynghori	Cael ei yrru gan y gyrwyr Dewis (1)	Dewis a ddymunir gan yr ardal (2)	Dewis (3)
[Enw'r Ardal]	Ysgol 1 Ysgol 2	A	Un ysgol gynradd ar un safle	Cynnal yr ysgolion presennol	Ysgol Gynradd ar y ddwy safle sy'n bodoli

- Byddai angen llenwi'r tabl canlynol ar gyfer pob ysgol.
- Ble'n bosibl, byddai'r data'n cael ei gymryd o gasgliadau data sy'n bodoli e.e. ffurflen PLASC.
- Ble nad yw'r data ar gael, gofynnir cwestiynau i'r ysgolion fel rhan o gasglu data Asesiad Effaith Cymunedol.
- Ar ôl llenwi'r tabl, fe'i hanfonir at bennaeth a chadeirydd y llywodraethwyr i gytuno a chadarnhau'r data.
- Gan ystyried pob dewis ar gyfer yr ardal yn ei dro, ac ystyried y data a gasglwyd, byddai'r effaith ar bob pennawd (e.e. % o ddisgyblion o gartrefi ble siaradir yr iaith) yn cael ei farnu fel 'Negyddol', 'Niwtral' neu 'Gadarnhaol'.
- Byddai hyn yn cyfrannu i'r Gwerthusiad Dewis gyffredinol gyda 'Negyddol' yn sgorio 1 (anghytuno'n gryf/gwaeth), 'Niwtral' yn sgorio 3 (nac yn cytuno nac anghytuno) a 'Cadarnhaol' yn sgorio 5 (cytuno'n gryf/gwelliant).
- Yna ysgrifennir adroddiad i gynnwys y tabl, sgoriau a chanlyniadau cyffredinol.

	Ysgol	Ysgol
Nifer disgyblion (Ionawr 2012)		
Categori iaith yr ysgol		
Defnydd disgyblion o'r Gymraeg		
Canran disgyblion sy'n siarad Cymraeg gartref: <i>Siarad Cymraeg gartref</i> <i>Nid yn siarad Cymraeg gartref</i> <i>Amherthnasol (methu siarad Cymraeg)</i>		
Canran a <u>addysgir</u> trwy gyfrwng y Gymraeg		
Canran disgyblion sy'n cael asesiad athro yn Gymraeg ar ddiwedd <i>Cyfnod Allweddol 1</i> <i>Cyfnod Allweddol 2</i>		
O'r rhai a gafodd asesiad athro yn y Gymraeg, y ganran o ddisgyblion a <u>gyflawnodd</u> yng <i>Nghyfnod Allweddol 1</i> <i>Nghyfnod Allweddol 2</i>		
Cyfrwng iaith disgyblion <i>Ar y buarth</i> <i>Yn y clwb brechwast</i> <i>Clwb ar ôl ysgol</i>		
Ysgol yn cymryd rhan flynyddol yn: <i>Cylch Meithrin / Ti a Fi</i> <i>Eisteddfodau</i> <i>Adrannau'r Urdd</i> <i>Ymweliadau dysgu Cymraeg (e.e. Glan Llyn)</i> <i>Gweithgareddau cyfrwng y Gymraeg eraill</i>		
Defnyddir yr ysgol gan yr ardal i ddysgu Cymraeg		
Defnydd Staff / Llywodraethwyr o'r Gymraeg		
Canran yr athrawon sy'n gallu addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg		
Canran y staff cefnogi all siarad Cymraeg yn: <i>rhugl</i> <i>Siarad Cymraeg ond nid yn rhugl</i> <i>Nid yn gallu siarad Cymraeg</i>		
Canran llywodraethwyr sy'n gallu siarad Cymraeg yn: <i>Rhugl</i> <i>Siarad Cymraeg ond nid yn rhugl</i> <i>Nid yn gallu siarad Cymraeg</i>		
Yr iaith a ddefnyddir yn gyffredin mewn: <i>Cyfarfodydd llywodraethwyr</i> <i>Cyfarfodydd CRhA</i> <i>Cyfarfodydd staff</i>		
Defnydd o'r Gymraeg yn y Gymdeithas (Cyfrifiad 2001)		
(unigolion 3+ oed) Canran ward Colwyn sy'n: <i>Siarad Cymraeg</i> <i>Un neu fwy o sgiliau yn y Gymraeg</i> (unigolion 3+oed) Canran ward Llysfaen sy'n: <i>Siarad Cymraeg</i> <i>Un neu fwy o sgiliau yn y Gymraeg</i>		

Mintai iaith

Defnyddiwyd mintai iaith i ddiffinio datblygiad ieithyddol disgyblion yn Gymraeg a Saesneg wrth iddynt weithio tuag at y nod o gyflawni dwyieithrwydd.

Mintai	Dehongliad o fath disgybl yn ôl ei allu ieithyddol
A	Disgyblion gyda medrusrwydd yn ymwneud ag oedran cyfochrog mewn Cymraeg a Saesneg
B	Disgyblion gyda medrusrwydd priodol yn y Gymraeg ond sydd angen atgyfnerthu rhai agweddau o'u sgiliau ieithyddol mewn Saesneg.
C1	Disgyblion gyda medrusrwydd priodol yn y Saesneg ond sydd angen atgyfnerthu rhai agweddau o'u sgiliau ieithyddol mewn Cymraeg
C2	Disgyblion gyda medrusrwydd priodol yn Saesneg ond heb y sgiliau oed priodol yn y Gymraeg
D	Disgyblion heb sgiliau oed priodol yn yr un o'r ddwy iaith

Rhoddir trwydded ddirymiadwy nad yw'n gyfyngedig, heb freindal, i chi weld y Data Trwyddedig ar gyfer defnydd anfasnachol yn unig, o'r cyfnod y bydd ar gael gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy;

Ni chewch gopïo, is-drwyddedu, dosbarthu, gwerthu neu fel arall drefnu bod y Data Trwyddedig ar gael mewn unrhyw ffurf i drydydd partiön; a

Neilltuir hawliau trydydd parti i orfodi telerau'r drwydded hon i'r Arolwg Ordnans.